# ATODLEN 5B Erthygl 24B(3)

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

**HYSBYSIAD O DAN ERTHYGL 24B(3) SYDD I'W ARDDANGOS DRWY GYDOL YR AMSER TRA CYFLAWNIR Y DATBLYGIAD**

## RHAN 1

Datblygiad yn (a)…….………………………………………………………………………….

Hysbysir drwy hyn fod caniatâd cynllunio (b)…………………………………………………

wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau (c) i (d)………….……………………………………………

ar (e)…….…………………………………………………………………………………….

gan (f)…….…………………………………………………….ac mae'r datblygu bellach wedi cychwyn.

Mae'r datblygiad yn cynnwys (g)…….……………………………………………………………. a dangosir ef fel yr ardal sydd wedi ei hamlinellu/lliwio ar y plan a atodir. Mae'r plan wedi ei luniadu yn unol â'r raddfa a nodir arno, yn dangos cyfeiriad y gogledd ac mae'n ffurfio, ac yn cael ei arddangos fel, RHAN 2 o'r hysbysiad hwn.

Gellir cael gwybodaeth bellach am y caniatâd cynllunio, gan gynnwys yr amodau, os oes rhai, y rhoddwyd y caniatâd yn ddarostyngedig iddynt, yn ystod unrhyw oriau rhesymol yn (h)…….……………………

Rhaid i berson sy'n cyflawni datblygu mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad mawr arddangos y ffurflen hon yn y man y cyflawnir y datblygu neu gerllaw iddo, drwy gydol yr amser y gwneir y gwaith datblygu. Rhaid arddangos y ffurflen yn unol ag erthygl 24B(3) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

Cyn cychwyn datblygiad mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad mawr, rhaid i berson roi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio lleol ar y ffurflen yn Atodlen 5A i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

Nodiadau

a) Mewnosoder cyfeiriad neu ddisgrifiad o leoliad y datblygiad.

b) Mewnosoder rhif cyfeirnod y cais cynllunio perthnasol.

c) Dileer "yn ddarostyngedig i amodau" os nad yw'r caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i unrhyw amodau.

d) Mewnosoder enw a chyfeiriad y datblygwr.

e) Mewnosoder y dyddiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio.

f) Mewnosoder yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru.

g) Mewnosoder disgrifiad o'r datblygiad.

h) Mewnosoder cyfeiriad yr awdurdod cynllunio.